# Cynhyrchu darnau set gyda gorffeniadau arbenigol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chreu gorffeniadau arbenigol ar ddarnau set sydd eu hangen gan gynnwys pren, cerrig, effaith briciau, sugno ffurfiad a brwsio, a llosgi pren i greu gorffeniad oed arbennig.

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn gwybod beth sydd ei angen, erbyn pryd ac felly pa ddeunyddiau a chyfarpar sydd eu hangen er mwyn cynhyrchu'r gorffeniad dymunol. Mae angen ichi allu cynhyrchu'r eitemau gyda'r fanyleb gywir a gyda'r gorffeniad dymunol.

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr llwyfan a gweithwyr llwyfan wrth gefn sy'n paratoi gorffeniadau arbenigol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio offer a chyfarpar gan gydymffurfio gyda deddfwriaeth a phrotocolau
2. defnyddio cyfarpar diogelwch personol yn ôl y gofyn
3. dewis deunyddiau ar gyfer y gwaith sydd ei angen gan ddilyn cyfarwyddiadau
4. dewis deunyddiau a'u gosod er mwyn creu'r gorchuddion dymunol
5. creu effeithiau a gorffeniadau pren yn dilyn cyfarwyddiadau gan ddefnyddio technegau brwsio a llosgi hyd at y dyfnder a'r sglein sydd ei angen
6. gorchuddio bagiau gwynt yn ôl y fanyleb a chwblhau'r effaith cyfan gan wneud y defnydd gorau o ddeunyddiau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. offer a chyfarpar sydd ei angen ar gyfer y gwaith
2. cynlluniau a manylebau i'w dilyn
3. y technegau gaiff eu defnyddio i greu'r gorffeniadau sydd eu hangen
4. sut i ddefnyddio offer  a pheiriannau yn ddiogel
5. gofynion iechyd a diogelwch ar gyfer gweithio gyda chyfarpar trydanol ac offer llaw
6. risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio offer a chyfarpar trydanol
7. sut i adeiladu fframiau pren i faint i'w defnyddio fel bagiau gwynt
8. y gorchudd priodol ar gyfer bagiau gwynt fel lliain gwyn neu hesian
9. sut i osod gorchuddion yn dynn ar fframiau pren a deunyddiau priodol ar gyfer y dasg

Cynhyrchu darnau set gyda gorffeniadau arbenigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSSG5 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Celfyddydau Perfformio, Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Pobl Broffesiynol Cyswllt y Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Gweithwyr Llwyfan Cynyrchiadau |
| **Geiriau Allweddol** | gweithwyr llwyfan; set; darnau; arbenigol; gorffeniadau; pren; cerrig; bric; effeithiau; sugno ffurfiad; brwsio; llosgi; oed; |